# Gŵyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018



*Ymrown, gyd-Gymry annwyl,*
*I gadw'r iaith gyda'r Ŵyl.*

*Dydd Sadwrn,*
*Tachwedd 10ed, 2018*

*Ysgol Y Moelwyn,*
*Blaenau Ffestiniog.*



**Pwyllgor Gwaith Gŵyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro, 2018**

**Llun: Alwyn Jones**

# Cywydd Croeso Gŵyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018

Yn wresog rhoddwn groeso
Yma i'r Ŵyl a geir ym mro
Gwythïen y lechen las,
A heddiw, mae mor addas
Datgan i 'swyn y tannau'
Angerdd cerdd i'n bywiocáu.

O rwbel ei chwareli
Yn nyddiau heth, cododd hi
Lenorion, cerddorion ddaeth
Yn gewri drwy ragoriaeth;
Diwylliant diwydiant oedd
Yn rhodio hyd ei strydoedd.

I sain cordiau tannau tyn
Doi aelwyd 'Llys y Delyn'
Yn fan trafod gosodiad,
A rhoddi i glws gerddi gwlad
Liaws o gyfalawon –
Rhai yn lleddf a rhai yn llon.

Do, heb os, daeth newid byd
I faeddu sawl celfyddyd,
Er y Gymraeg yma rydd
Lifeiriant i leferydd
Ei chymdogol drigolion –
Un dre' o fil yw'r dref hon!

*Iwan Morgan*

**RHESTR TESTUNAU**
**GŴYL GENEDLAETHOL**
**CYMDEITHAS CERDD DANT CYMRU**
**Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018**

*Ymrown, gyd-Gymry annwyl,*
*I gadw'r iaith gyda'r Ŵyl*

---

**Ysgol Y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog - Tachwedd 10eg, 2018**

---

*Llywydd y Dydd:* Arwel Gruffydd

*Llywyddion Anrhydeddus:* Eirlys a Shôn Dwyryd, Einir Wyn Jones, Wenna Francis Jones, Mona Meirion, Buddug Lloyd Roberts

*Arweinyddion*: Delyth Gray, Elliw Mai, Dilwyn Morgan

---

**Swyddogion y Pwyllgor Gwaith:**

| | | |
|---|---|---|
| *Cadeirydd:* | Iwan Morgan | |
| *Is-Gadeirydd:* | Gwyn Roberts | |
| *Trysorydd:* | Anthony Evans | |
| *Ysgrifennydd:* | Bethan Haf Jones | Ffon: 01766 830435<br>e-bost: bethaniwan@yahoo.co.uk |
| *Trefnydd yr Ŵyl:* | John Eifion | Ffon: 01286 872488 / 07985 200677<br>e-bost: trefnyddgcd@yahoo.com |

**Rhestr Testunau:**

£2

**Mynediad i'r Ŵyl:**
Oedolion: Prynhawn £7.00; Hwyr £7.00;
Dau Gyfarfod £12.00; Plant: Hanner pris

**Gwefan yr Ŵyl a'r Gymdeithas Cerdd Dant**:
www.cerdd-dant.org

# ADRAN CERDD DANT

**Beirniaid: Steffan Rhys Hughes, Einir Wyn Jones, Delyth Medi, Eirianwen Williams, Menai Williams**

**Telynorion: Dylan Cernyw, Dafydd Huw, Elain Rhys, Dylan Rowlands, Elain Wyn**

**1. Unawd Oedran Cynradd:**

*Rhyfeddodau* Siân Owen *(Darn o Haul - Cerddi Siân Owen; Cyhoeddiadau Barddas)*
Cainc: *Siglo* Catherine Watkin (11222) (*Miri Maelgwn a cheinciau eraill)*

*Gwobrau: 1. £50 (rhodd Cronfa Goffa Watcyn o Feirion) a Thlws yr Ŵyl ynghyd â Thlws Beti a Carys Puw er cof am eu rhieni a'u brawd, i'w ddal am flwyddyn; 2. £30; 3. £20.*

**2. Parti Unsain Oedran Cynradd (hyd at 12 mewn nifer):**

*Chwyrnu* Elin Angharad Davies *(Allwedd y Tannau 77, 2018; CCDC)*
Cainc: *Rhiannon* Menai Williams (1122) *(Ceinciau'r Dyffryn a Mwy; CCDC)*

*Gwobrau: 1. £90 a Thlws yr Ŵyl, ynghyd â Thlws Coffa L E Morris (rhodd y diweddar Haf Morris, er cof am ei mam, Mrs L E Morris, Trawsfynydd) i'w ddal am flwyddyn; 2. £70; 3. £50.*

**3. Unawd Oedran Uwchradd Bl 7-11:**

*Yn dda iawn o ddim* Gwyn Thomas (*'Fesul Gair' Blodeugerdd Barddoniaeth - gol Tudur Dylan Jones: Gwasg Gomer)*
Cainc: *Maelor Ddu* Gwennant Pyrs (1122) *(Cerddi a Cheinciau'r Cwm; Gwasg y Bwthyn)*

*Gwobrau: £1. £50. Tlws er cof am Elliw Llwyd Owen yn rhoddedig gan Gôr Seiriol i'w dal am flwyddyn ynghyd â Thlws yr Ŵyl 2. £30; 3. £20.*

**4. Deuawd Oedran Uwchradd Bl 7-11:**

*Cerdd yr Hen Chwarelwr* W. J. Gruffydd (*'Fesul Gair' Blodeugerdd Barddoniaeth - gol Tudur Dylan Jones: Gwasg Gomer)*
Cainc: *Maesgwyn* Mona Meirion (1122) *(Dyffryn Conwy a Cheinciau Eraill; CCDC)*

*Gwobrau: 1. £80 a Thlysau'r Ŵyl, ynghyd â Thlws Coffa Lowri Morgan i'w ddal am flwyddyn; 2. £50; 3. £30.*

**5. Parti Oedran Uwchradd (heb fod dros 20 mewn nifer):**

*Carol y Fflam* John Gruffydd Jones (Penillion 1-4 a'r gytgan yn bennill 5) *(Ai breuddwydion bardd ydynt; Gwasg y Bwthyn)*
Cainc: *Ffridd Goch* Gwennant Pyrs (11222) *(Cerddi a Cheinciau'r Cwm; Gwasg y Bwthyn)*

*Gwobrau: 1. £120 a Thlws yr Ŵyl, ynghyd â Thlws Coffa W H a Gwen Puw i'w ddal am flwyddyn a Thlws Parti Bro Ogwr i'r hyfforddwr buddugol i'w gadw am byth; 2. £90; 3. £60.*

**6. Unawd Bl 12 hyd at 21 oed:**

*Y Penblwydd* Dewi Prysor *(Allwedd y Tannau 77, 2018; CCDC)*
Cainc: *Gardden* Siân James (1122) *(Allwedd y Tannau 77, 2018; CCDC)*

*Gwobrau: 1. £80 a Thlws yr Ŵyl ynghyd â Thlws Teulu'r Fedw, i'w ddal am flwyddyn; 2. £50; 3. £30*

**7. Deuawd Bl 12 hyd at 21 oed:**

*Cân Merêd* Dewi 'Pws' Morris *(Popeth Pws; Gwasg y Lolfa)*
Cainc: *Trwyn y Garnedd* Menai Williams (11222) *(Ceinciau Ddoe a Heddiw; CCDC)*

*Gwobrau: 1. £90 a Thlysau'r Ŵyl ynghyd â Chwpan Ysgol Dyffryn Conwy i'w ddal am flwyddyn; 2. £70; 3. £50.*

**8. Unawd dros 21 oed:**

*Strydoedd Aberstalwm* Alun 'Sbardun' Hughes *(Cwmni Sain - Copi ar gael gan yr ysgrifennydd ynghyd â phatrwm corfannu enghreifftiol os bydd angen)*
Cainc: *Tir y Cwmwd* Einir Wyn Jones (1122) *(Ceinciau Penrhos; Cyhoeddiadau Sain)*

*Gwobrau: 1. £90 a Thlws yr Ŵyl ynghyd â Chwpan er cof am Elwyn yr Hendre i'w ddal am flwyddyn; 2. £70; 3. £50.*

**9. Deuawd dros 21 oed:**

*Emyn Priodas* Gareth Maelor *(Allwedd y Tannau 77, 2018; CCDC)* (Atgynhyrchiad o'r gyfrol 'Dyddiau Gŵyl a Dathlu – CCDC)
Cainc: *Cymer* Menai Williams (122122) *(Allwedd y Tannau 77, 2018; CCDC)*

*Gwobrau: 1. £120 a Thlws yr Ŵyl ynghyd â Chwpan Dewi Mai o Feirion i'w ddal am flwyddyn; 2. £90; 3. £60.*

**10. Triawd neu Bedwarawd Agored:**

*Yng nghyffro'r gwanwyn* T. R. Jones *(Emyn 777, Caneuon Ffydd: Pwyllgor y Llyfr Emynau Cydenwadol)*
Cainc: *Ysgubor Fawr* Owain Siôn (1122) *(Ceinciau Llwyndyrys; Cyhoeddiadau Sain)*

*Gwobrau: 1. £120 a Thlysau'r Ŵyl ynghyd â Thlws Coffa Dafydd a Mairwen Roberts i'w ddal am flwyddyn; 2. £90; 3. £60.*

**11. Parti Agored (heb fod dros 20 mewn nifer):**

*Gwyn Thomas* Idris Reynolds *(Allwedd y Tannau 77, 2018; CCDC)*
Cainc: *Garnedd Einion* Ann Bryniog (1122) *(Dyffryn Conwy a Cheinciau Eraill; CCDC)*

*Gwobrau: 1. £250 a Thlws yr Ŵyl ynghyd â Tharian Goffa Ioan Dwyryd i'w dal am flwyddyn; 2. £180; 3. £120.*

**12. Côr Agored:**

*Cwm Cynfal* Iwan Morgan *(Allwedd y Tannau 77, 2018; CCDC)*
Cainc: *Glan y Môr* Einir Wyn Jones (122122) *(Ceinciau Penrhos; Cyhoeddiadau Sain)*

Gw*obrau: 1. £500 a Thlws yr Ŵyl ynghyd â Tharian Goffa Dafydd o Feirion i'w dal am flwyddyn; 2. £300; 3. £200.*

**13. Cyfansoddi:**

*Cainc 10 bar, 5/4*

*Gwobrau: £100 i'w rannu ynghyd â Thlws Coffa Gilmor Griffiths i'r buddugol i'w ddal am flwyddyn.*

**DALIER SYLW**

**Os oes anhawster cael hyd i'r geiriau, cysylltwch â'r ysgrifennydd.**

# Y DELYN

**Beirniaid: Angharad Wyn Jones, Caryl Thomas**

**14. Unawd Telyn Bl. 6 ac iau (Cynradd):**

Hyd at 3 munud - hunanddewisiad gan gynnwys un darn gan gyfansoddwr o Gymru

*Gwobrau: 1. £50 a Thlws yr y Ŵyl ynghyd â Tharian Goffa Huw T Edwards i'w dal am flwyddyn; 2. £30; 3. £20 (y gwobrau ariannol yn rhodd Cronfa Côr Telynau Cymru)*

**15. Unawd Telyn Bl. 7 - 11 (Uwchradd):**

Hyd at 5 munud - hunanddewisiad gan gynnwys un darn gan gyfansoddwr o Gymru

*Gwobrau: 1. £60 a Thlws yr Ŵyl ynghyd â Thlws yr Herald Gymraeg i'w ddal am flwyddyn; 2. £40; 3. £30.*

**16. Unawd Telyn Bl. 12 a than 25 oed:**

Hyd at 7 munud - hunanddewisiad gan gynnwys un darn gan gyfansoddwr o Gymru

*Gwobrau: 1. £80 a Thlws yr Ŵyl ynghyd â Chwpan Goffa Hugh Jones, Trefor-Wen, Llansadwrn i'w ddal am flwyddyn; 2. £50; 3. £30.*

**17. Ensemble Telyn Agored - dim llai na 3 mewn nifer a dim mwy na 10:**

Hyd at 5 munud - hunanddewisiad gan gynnwys un darn gan gyfansoddwr o Gymru

*Gwobrau: 1. £130 a Thlws yr Ŵyl ynghyd â Thlws Telynau Tawe i'w ddal am flwyddyn; 2. £80; 3. £50.*

**18. Cyfeilio Cerdd Dant Bl. 13 ac iau:**

Cyfeilio dwy alaw yn y cyweirnodau gwreiddiol a hyd at dôn a hanner i lawr ac i fyny o'r gwreiddiol.

Alawon: *Llety Fadog* Gwennant Pyrs *(Ceinciau Lliw ac Alawon eraill)*
*Hendre Wen* Sioned Haf Roberts *(Ceinciau Penyberth)*
*Lowri* Menai Williams *(Ceinciau'r Dyffryn a Mwy)*
*Difyrwch Ieuan y Telynor Dall* Trefniant Nansi Richards *(Wyth o Geinciau Cerdd Dant)*

*Gwobrau: 1. £60 a Thlws yr Ŵyl: 2. £40; 3. £30.*

# LLEFARU I GYFEILIANT UNRHYW OFFERYN NEU GYFUNIAD O OFFERYNNAU

**Beirniad: Dorothy Jones**

**19. Grŵp Llefaru Oedran Cynradd:**

*Byddin y Brwshus Llawr* Nesta Wyn Jones *(Dawns y Sêr; Gwasg Gomer)(I'w llefaru gyda symudiadau addas)*

*Gwobrau: 1. £90 a Thlws yr Ŵyl 2. £70; 3. £50.*

**20. Grŵp Llefaru Oedran Uwchradd / Coleg Trydyddol:**

*Mae lôn yn ôl* Rhys Iorwerth *(Un Stribedyn Bach; Gwasg Carreg Gwalch)*

*Gwobrau: 1. £120 a Thlws yr Ŵyl; 2. £90; 3. £60.*

**21. Grŵp Llefaru Agored:**

*Detholiad o 'Blaenau'* Gwyn Thomas (Unrhyw ddetholiad na chymer fwy na 5 munud i'w berfformio) *(Ysgyrion Gwaed; Gwasg Gee)*

*Gwobrau: 1. £250 a Thlws yr Ŵyl ynghyd â Tharian Côr Aelwyd Caerdydd i'w dal am flwyddyn; 2. £180; 3. £120.*

# CANU GWERIN

**Beirniaid: Mair Tomos Ifans, Catrin Angharad Jones, Einir Wyn Williams**

**22. Unawd Oedran Cynradd:**

*Mae gen i chwaer Mari (Mabsant; Y Lolfa)*

*Gwobrau: 1. £50 a Thlws yr Ŵyl; 2. £30; 3. £20.*

**23. Unawd Oedran Uwchradd Bl 7-11:**

*Trafaeliais y byd (Canu'r Cymry 1; Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru)*

*Gwobrau: 1. £60 a Thlws yr Ŵyl; 2. £40; 3. £30.*

**24. Unawd dros Bl 12 a than 21 oed:**

*Distyll y Don (Caneuon Traddodiadol y Cymry, Argraffiad Diwygiedig; Cwmni Cyhoeddi Gwynn)*

*Gwobrau: 1. £80 a Thlws yr Ŵyl; 2. £50; 3. £30.*

**25. Unawd dros 21 oed:**

i. *Hiraeth am Feirion (Copi ar gael gan yr ysgrifennydd)*

ii. *Hunanddewisiad gwrthgyferbyniol (ac eithrio'r caneuon a osodwyd yn y testunau eleni)*

*Gwobrau: 1.£90 a Thlws yr Ŵyl ; 2.£70; 3. £50*

**26. Parti Oedran Cynradd (hyd at 12 mewn nifer):**

*Ffarwel i Ddociau Lerpwl - unsain, digyfeiliant (Detholiad o Alawon Gwerin, Buddug Lloyd Roberts ac E. Olwen Jones; Canolfan Astudiaethau Iaith, Llangefni neu copi ar gael gan yr ysgrifennydd)*

*Gwobrau: 1. £90 a Thlws yr Ŵyl ynghyd â Thlws Ysgol Llanddoged i'w ddal am flwyddyn; 2. £70; 3. £50.*

**27. Parti Oedran Uwchradd (hyd at 20 mewn nifer):**

*Trefniant gwreiddiol neu drefniant wedi'i gyhoeddi o Merch y Melinydd (unrhyw 3 phennill) (Gweler rheol 6 yn y Rheolau Cystadlu)*

*Gwobrau: 1. £120 a Thlws yr Ŵyl ynghyd â Tlws Ysgol Glanaethwy i'w ddal am flwyddyn; 2. £90; 3. £60.*

**28. Grŵp Gwerin Cyfoes (Offerynnol neu offerynnol a lleisiol hyd at 8 mewn nifer):**

*Trefniant ar y thema Môr a/neu Mynydd* (dim hwy na 7 munud)

*Gwobrau: 1. £150 a Thlws yr Ŵyl; 2. £100; 3. £75.*

**29. Parti Agored (hyd at 20 mewn nifer):**

*Trefniant gwreiddiol neu drefniant wedi'i gyhoeddi o unrhyw gân werin (ac eithrio'r caneuon a osodwyd yn y testunau eleni)*

*Gwobrau: 1. £250 a Thlws yr Ŵyl ynghyd â Thlws Selwyn a Neli Jones i'w ddal am flwyddyn; 2. £180; 3. £120.*

**30. Côr Agored (dros 20 mewn nifer):**

*i. Yn iach i ti Gymru (Copi ar gael gan yr ysgrifennydd)*

*ii. Hunanddewisiad gwrthgyferbyniol(ac eithrio'r caneuon a osodwyd yn y testunau eleni) Trefniant gwreiddiol neu drefniant wedi'i gyhoeddi*

*Gwobrau: 1. £500 a Thlws yr Ŵyl ynghyd â Chwpan Parti'r Ffynnon i'w ddal am flwyddyn; 2. £300; 3. £200.*

# DAWNSIO GWERIN

**Beirniaid: Eiry Palfrey, Huw Williams**

## 31. Parti Dawns Oedran Cynradd:

*Dawns Harlech (Dawnsie Twmpath; Y Lolfa)*

*Gwobrau: 1. £90 a Thlws yr Ŵyl; 2. £70; 3. £50.*

## 32. Stepio Unigol Agored:

*Cyflwyniad dim hwy na 3 munud, gan ddefnyddio alawon, patrymau, gwisgoedd a stepiau traddodiadol Cymreig.*

*Gwobrau: 1. £90 a Thlws yr Ŵyl; 2. £70; 3. £50.*

## 33. Parti Dawns Agored:

*Meillionen (Cyhoeddiad CDGC. Dawnsiau Traddodiadol Cymdeithas Dawnsio Gwerin: Casgliad o Ddawnsfeydd o'r 17eg a'r 18ed ganrif)*

*Gwobrau: 1. £250 a Thlws yr Ŵyl ynghyd â Thlws Dawnswyr Talog i'w ddal am flwyddyn; 2. £180; 3. £120.*

**34. Grŵp Stepio:**

*Cyflwyniad gan 3 i 12 mewn nifer, gan ddefnyddio alawon, patrymau a stepiau traddodiadol Cymreig ar y thema 'Diwydiant'. Ni ddylai'r cyflwyniad fod yn hwy na 4 munud.*

*Gwobrau: 1. £100 a Thlws yr Ŵyl; 2. £70; 3. £50*

**35. Cyfansoddi:**

*Dawns Twmpath Gymreig ei naws yn dwyn teitl 'Dawns y Car Gwyllt'. Disgwylir i'r ddawns gael ei pherfformio ar yr alaw 'Y Car Gwyllt' – alaw 32 bar trefn A A B B. Copi ar gael gan yr ysgrifennydd.*

*Gwobrau: 1. £100 i'w rannu a Thlws yr Ŵyl i'r buddugol.*

# RHEOLAU CYSTADLU

**1.** Rhaid i'r cystadleuwyr yn y gwahanol adrannau gwblhau'r ffurflen a thalu'r tâl cofrestru trwy wefan Cymdeithas Cerdd Dant Cymru - www.cerdd-dant.org - erbyn **Hydref 1af, 2018.** Ni dderbynnir enwau ar ôl y dyddiad yma.

**2.** Rhaid i'r cyfansoddiadau fod yn llaw y Trefnydd erbyn **Hydref 1af, 2018**, (Tyddyn Arthur, Y Waun, Penisarwaun, Caernarfon, Gwynedd, LL55 3PN) a rhaid anfon gyda phob cyfansoddiad amlen dan sêl gyda'r manylion canlynol – Oddi mewn, rhif a theitl y gystadleuaeth, enw'r Adran, ffug-enw, yn llawn, a chyfeiriad yr ymgeisydd. Tu allan, Rhif y Gystadleuaeth a ffug-enw'r ymgeisydd. Yn ogystal rhaid cofrestru eich enw ar lein trwy wefan y Gymdeithas.

**3.** Rhaid i'r ymgeiswyr ym mhob cystadleuaeth fod yn yr oed priodol **ar ddydd yr Ŵyl**..

**4.** Lle bo teitl cystadleuaeth yn cynnwys y geiriau 'oedran cynradd', golyga hynny bod yn rhaid i bob ymgeisydd yn y gystadleuaeth honno fod yn ddisgybl Ysgol Gynradd ar ddydd yr Ŵyl.

**5.** Lle bo teitl cystadleuaeth yn cynnwys y geiriau 'oedran uwchradd', golyga hynny bod yn rhaid i bob ymgeisydd yn y gystadleuaeth honno fod yn ddisgybl blwyddyn 7 hyd at blwyddyn 13.

**6.** **Rhaid anfon copiau o'r geiriau / trefniant / cainc – lle bo hunan-ddewisiad at y trefnydd erbyn Hydref 1af, 2018.**

**7.** Rhaid defnyddio Telynorion swyddogol yr Ŵyl yn yr Adran Cerdd Dant. Rhaid i'r partion a'r corau (5, 11, 12) ganu i gyfeiliant dwy delyn swyddogol y gystadleuaeth. Yn yr adrannau Llefaru a Dawnsio Gwerin gall y cystadleuwyr ddefnyddio eu Telynorion eu hunain.

8. Rhaid defnyddio'r alawon a'r trefniant o'r llyfrau a nodir.

9. Os cyfyd yr angen i gywiro unrhyw fanylion, bydd y newidiadau'n ymddangos ar wefan Cymdeithas Cerdd Dant Cymru - **www.cerdd-dant.org**

10. Ni chaniateir i unigolyn ganu gyda mwy nag un parti neu gôr, yn yr un gystadleuaeth.

11. Bydd dyfarniad y beirniad yn derfynol ym mhob achos. Oni farno'r beirniad fod teilyngdod, atelir y wobr neu ran ohoni. Bydd hawl gan y beirniad i ad-drefnu'r wobr yn ôl teilyngdod.

12. Bydd manylion rhagbrofion yr holl gystadleuthau yn ymddangos ar wefan Cymdeithas Cerdd Dant Cymru - **www.cerdd-dant.org** - o leiaf bythefnos cyn diwrnod yr Ŵyl.

13. Fe geidw Cymdeithas Cerdd Dant Cymru a Phwyllgor Lleol yr Ŵyl mewn ymgynghoriad â'i gilydd hawl i gwtogi'r Ŵyl neu ei gohirio; ei ddiddymu os bernir hynny'n angenrheidiol oherwydd amgylchiadau anorfod tu hwnt i reolaeth y Gymdeithas neu'r Pwyllgor Lleol.

**PWYSIG**

**Rhaid i bob cystadleuydd gofrestru i gystadlu trwy wefan y Gymdeithas erbyn Hydref 1af, 2018.**

**Ni dderbynnir unrhyw enw ar ôl y dyddiad hwnnw.**

# **Tâl Cystadlu yr Ŵyl Cerdd Dant**

| | |
|---|---|
| Unigolion | £5 i oedolion ymhob cystadleuaeth.<br>£3 i ddisgyblion cynradd, uwchradd a myfyrwyr ymhob cystadleuaeth. |
| Deuawdau, Triawdau, Pedwarawdau | £5 i bob oedolyn ymhob cystadleuaeth.<br>£3 i bob disgybl cynradd, uwchradd a myfyrwyr ymhob cystadleuaeth.<br>(Enghraifft: Deuawd Cynradd - £6; Triawd o Oedolion - £15; Pedwarawd o Fyfyrwyr - £12) |
| Partion a Grwpiau | £50 i bob parti a grŵp agored ymhob cystadleuaeth.<br>£20 i bob parti a grŵp oedran cynradd, uwchradd a myfyrwyr ymhob cystadleuaeth. |
| Corau | £100 i bob côr ymhob cystadleuaeth. |
| Cyfansoddi | £5 i bob ymgais |

Rhaid talu'r tâl cystadlu priodol ymhob cystadleuaeth y bwriedir cystadlu ynddi.

Ffurflen gofrestru i gystadlu ar wefan Cymdeithas Cerdd Dant Cymru - www.cerdd-dant.org - a dilyn y linc.
Unrhyw broblem yna cysylltwch â John Eifion - trefnyddgcd@yahoo.com neu ar 07985 200677

**Llywydd**
Eleri Roberts

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Gwenan Gibbard

**Trefnydd y Gwyliau Cerdd Dant**
John Eifion
Tyddyn Arthur, Y Waun,
Penisarwaun, Caernarfon,
Gwynedd LL5 3PN
☏ 01286 872488 / 07985 200677
trefnyddgcd@yahoo.com

**Swyddog Gweinyddol**
Delyth Vaughan Rowlands
Y Vanner, Llanelltyd,
Dolgellau, Gwynedd,
LL40 2HE
☏ 01341 422854
cerdd.dant.cymru@gmail.com

**CYHOEDDIADAU**

| | |
|---|---|
| Allwedd y Tannau …………………………………………. | £10.00 |
| Hud a Hanes Cerdd Dannau gan Aled Lloyd Davies.. | £5.00 |
| Cist y Ceinciau (rhestr o geinciau gosod)…………… | £6.00 |
| Maes y Delyn ……………………………………………… | £5.00 |
| Dyffryn Conwy a Cheinciau Eraill …………………….. | £5.00 |
| Cerdd ar Dant ……………………………………………. | £5.00 |
| Deg Cainc ………………………………………………... | £1.00 |
| Rhos Helyg ac Alawon Eraill …………………………… | £5.00 |
| Y Cennin Aur …………………………………………….. | £5.00 |
| Tannau'r Haf ……………………………………………... | £5.00 |
| Tinc a Thonc ……………………………………………… | £5.00 |
| Bedw Gwynion …………………………………………… | £5.00 |
| Yr Hen Gostrel …………………………………………… | £5.00 |
| Gair i'r Gainc ……………………………………………. | £5.00 |
| Ceinciau'r Ifanc ………………………………………….. | £5.00 |
| Ceinciau Bangor ………………………………………… | £5.00 |
| Ceinciau Cynythog ……………………………………… | £5.00 |
| Cerdd Dant ……………………………………………….... | £5.00 |
| Tonnau'r Tannau ………………………………………… | £5.00 |
| Ceinciau Ddoe a Heddiw ……………………………….. | £5.00 |
| Ceinciau '99 ……………………………………………… | £5.00 |
| Canrif o Gân 1 gan Aled Lloyd Davies………………… | £5.00 |
| Canrif o Gân 2 gan Aled Lloyd Davies ………………… | £5.00 |
| Gŵyl a Dathlu ……………………………………………. | £4.00 |
| Diliau'r Dyffryn ………………………………………….. | £5.00 |
| Alaw Tawe ……………………………………………….... | £5.00 |
| 'Na Joio ………………………………………………….… | £8.00 |
| Ceinciau'r Allwedd (Y Gyfrol Gyntaf)…………………… | £6.00 |

*Gellir archebu gan y Swyddog Gweinyddol. Cludiant yn ychwanegol.*
Rhaid anfon blaendal gyda phob archeb.  Telerau'r fasnach i lyfrwerthwyr.

# Cymdeithas Cerdd Dant Cymru

...yn hybu canu gyda'r tannau ers 1934